



Pynciau Ilosg

Pennawd: Mae tanau gwyllt yn mynd yn broblem ddifrifol yng Nghymru a ledled y byd.



Mae tanau gwyllt wedi bod yn digwydd yn amlach yn y DU yn y blynnyddoedd diwethaf.

Dywed ymchwilyr fod y ffigurau'n dystiolaeth fod newid hinsawdd eisoes wedi cynyddu'r risg o danau gwyllt yn y DU.

Gohebydd

Darllenwch bennawd y papur newydd yn uchel.

Cwestiynau

Gofynnwch i bob cymeriad:

- Sut mae'r tân gwyllt yn effeithio arnoch chi?

Meddyliwch pwy fyddai orau i ateb y cwestiynau hyn:

- Sut mae'n gwneud i chi deimlo?
- Beth ydych chi'n meddwl ddylai gael ei wneud amdano?

Ceisiwch feddwl am o leiaf 2 gwestiwn arall y gallwch eu gofyn.



Amanda

Yn arwain Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru

- Mae'n awyddus i'r boblogaeth wybod fod ei gwasanaeth tân yn hollol barod i atal y tanau hyn ac achub eiddo a bywydau.
- Mae'n teimlo mai'r ateb i atal y tanau gwyllt hyn yw mynd i'r afael â'r rhesymau pam mae pobl yn cychwyn tanau gwyllt damweiniol a bwriadol.



Malcom

Yn cynghori Llywodraeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd

- Mae'n rhwystredig gan nad oes neb wedi gwrando'n iawn ar ei gyngor.
- Mae'n teimlo mai'r ateb i atal hyn rhag digwydd yw taclo newid yn yr hinsawdd.



Meinir

Yn cynhyrchu sioe bywyd gwyllt enwog

- Mae'n gweld hyn fel cyfle i ymgyrchu dros fwy o fesurau ar gyfer newid yn yr hinsawdd.
- Mae'n cynllunio rhaglen ar effeithiau tanau gwyllt ar fywyd gwyllt lleol.



Gethin

Prif Weinidog Cymru

- Mae'n teimlo dan lawer o bwysau oherwydd y broblem hon sy'n codi dro ar ôl tro.
- Mae'n bwriadu creu grŵp lefel uchel i ddod o hyd i'r ffordd orau o atal y broblem hon yn y dyfodol.



Pennawd: Mae tân gwyllt Llangollen yn parhau i roi galw mawr ar adnoddau gwerthfawr.



Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd bod yn hynod ofalus ac ystyried canlyniadau tanau glaswellt yn ystod y tywydd poeth ar hyn o bryd.

Gohebydd

Darllenwch bennawd y papur newydd yn uchel.

Cwestiynau

Gofynnwch i bob cymeriad:

- Sut mae'r tân gwyllt yn effeithio arnoch chi?

Meddyliwch pw yfddai orau i ateb y cwestiynau hyn:

- Sut mae'n gwneud i chi deimlo?
- Beth ydych chi'n meddwl ddylai gael ei wneud amdano?

Ceisiwch feddwl am o leiaf 2 gwestiwn arall y gallwch eu gofyn.

Jane

Ar wyliau o Fanceinion

- Mae wedi'i chythruddo gan fod ffyrdd ar gau, fel nid yw'n gallu mynd â'i theulu i weld y tân gwyllt - roedd hi'n meddwl y byddai'n gyffrous iddyn nhw.
- Gan fod rhai o'r atyniadau twristiaeth lleol ar gau tra bod y tân gwyllt yn cael ei daclo, mae Jane yn teimlo bod y gwyliau'n fethiant ac mae eisiau ei harian yn ôl.



Guto

Ffermwr defaid lleol

- Mae'n poeni am ddiogelwch twristiaid sy'n trio croesi rhai o'i gaeau i weld y tân gwyllt.
- Mae'n pryderu y gallai'r tân gwyllt ledi i'w dir ac effeithio ar ei anifeiliaid a'i fusnes.



Dafydd

Yn gyrru trê'n ar gyfer y busnes trenau stêm lleol

- Mae'n poeni bod y tanau gwyllt yn cadw twristiaid draw, gan arwain at lai o gwsmeriaid.
- Mae'n meddwl tybed a fydd ei swydd yn ddiogel os bydd y tân yn difrodi'r cledrau.



Ffion

Diffoddwr tân sydd wedi ymddeol ond sydd wedi'i galw i helpu

- Mae'n mwynhau brwydro tanau eto a theimlo fel aelod gwerthfawr o'r gymuned.
- Mae wedi blino'n gorfforol o weithio oriau hir ac ychydig yn bryderus nad yw hi efallai'n gwneud digon i helpu.



Pennawd: Dywed gweinidog amgylchedd Awstralia fod hyd at 30% o'r coalas wedi'u lladd mewn tanau ar arfordir canolbarth/gogledd De Cymru Newydd.



Mae arfordir canolbarth/gogledd y dalaith yn gartref i nifer sylweddol o goalas Awstralia, gyda phoblogaeth sydd rhwng 15,000 a 28,000. Ddydd Gwener, dywedodd gweinidog ffederal yr amgylchedd, Susan Ley, fod hyd at 30% o'r coalas yn y rhanbarth wedi'u lladd, oherwydd bod "hyd at 30% o'u cynefin wedi cael ei ddinistrio".

Gohebydd

Darllenwch bennawd y papur newydd yn uchel.

Cwestiynau

Gofynnwch i bob cymeriad:

- Sut mae'r tân gwyllt yn effeithio arnoch chi?

Meddyliwch pwy fyddai orau i ateb y cwestiynau hyn:

- Sut mae'n gwneud i chi deimlo?
- Beth ydych chi'n meddwl ddylai gael ei wneud amdano?

Ceisiwch feddwl am o leiaf 2 gwestiwn arall y gallwch eu gofyn.



Sussan

Gweinidog yr Amgylchedd

- Mae'n teimlo dan lawer o bwysau gan fod cyfryngau'r byd yn canolbwyntio ar danau gwyllt Awstralia.
- Prin yw'r amser mae'n ei dreulio gyda'i theulu oherwydd ei gwaith.
- Mae'n poeni am ddyfodol ei swydd os caiff ei barnu'n wael am y ffordd mae hi'n delio â'r drychineb.



James

Llefarydd ar ran Cyngor Cadwraeth Natur y dalaith

- Mae'n teimlo'n anobeithiol yn wyneb y dinistr a achoswyd gan y tanau gwyllt.
- Mae'n pryderu am y poblogaethau o fywyd gwyllt yn y wlad.
- Mae'n meddwl beth yw'r ffordd orau i atal hyn rhag digwydd ar y raddfa hon byth eto.



Shelagh

Yn rhedeg canolfan achub ar gyfer Coalas

- Mae'n ddigalon o weld cyflwr yr anifeiliaid sy'n cael eu cludo i'w chanolfan achub.
- Mae'n poeni nad oes ganddi ddigon o staff ac adnoddau i ddal ati o ystyried nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu cludo ati.
- Mae'n pryderu y gallai'r tanau gwyllt droi i gyfeiriad y ganolfan achub. Sut all hi amddiffyn yr holl goalas yno?



Jack

Diffoddwr tân gwirfoddol

- Mae'n gandryll ei fod yn gorfod delio â thanau gwyllt a ddechreuwyd yn fwriadol yn ei ardal leol.
- Mae wedi blino ac yn llwglyd gan ei fod wedi bod yn gweithio am 24 awr heb fawr o seibiant.
- Mae'n poeni efallai na fydd ei swydd arferol yn cael ei chadw ar agor iddo tra ei fod yn gwirfoddoli.



Pennawd: Mae tanau gwyllt yn cydio ar lethrau mynyddoedd ac mewn coedwigoedd.



Mae diffoddwyr tân wrthi'n brwydro nifer o danau gwyllt mawr ar draws Cymoedd De Cymru. Mae criwiau ar safle tân ar fynydd uwchben Heath Terrace yn Ynys-hir. Maen nhw hefyd wedi cael eu galw i dân mawr mewn coedwig rhwng Maesteg a Phort Talbot.

Gohebydd

Darllenwch bennawd y papur newydd yn uchel.

Cwestiynau

Gofynnwch i bob cymeriad:

- Sut mae'r tân gwyllt yn effeithio arnoch chi?

Meddyliwch pwy fyddai orau i ateb y cwestiynau hyn:

- Sut mae'n gwneud i chi deimlo?
- Beth ydych chi'n meddwl ddylai gael ei wneud amdano?

Ceisiwch feddwl am o leiaf 2 gwestiwn arall y gallwch eu gofyn.



Lloyd

Gwirfoddolwr ar gyfer y criw achub mynydd ac yn cefnogi'r diffoddwyr tân

- Mae'n flin oherwydd bod tân gwyllt arall wedi cael ei gychwyn yn yr ardal. Mae'n digwydd bob blwyddyn.
- Mae'n poeni nad oes ganddo ddigon o fwyd a diod ar gyfer y diffoddwyr tân, i'w cadw i fynd.
- Mae'n falch ei fod yn gallu cefnogi'r ymdrech i atal y tân gwyllt.



Pat

Aelod lleol o'r gymuned y mae ei dŷ yn cefnu ar y mynydd

- Mae'n gofidio y bydd y tân yn cyrraedd y tŷ.
- Mae'n poeni am golli ei holl eiddo a lle byddai'n byw pe bai'r tân yn dod yn rhy agos.
- Mae wedi mynd i banig am orfod symud i ffwrdd o'r gymuned y cafodd ei magu ynddi.



Andy

Yn gweithio i Cyfoeth Naturiol Cymru ym maes coedwigaeth

- Mae'n pryderu am ddiogelwch y gymuned.
- Mae'n meddwl tybed a yw'n defnyddio'r mesurau gorau i atal tanau gwyllt rhag cychwyn a lledu.
- Mae'n poeni am y gost o ailblannu'r coed a losgwyd gan y tân gwyllt.



Cathy

Mae'n defnyddio'r ardal i ddarparu teithiau cerdded iechyd a lles i grwpiau o bobl leol

- Mae newydd ddechrau yn ei swydd ac yn meddwl tybed sut y bydd hyn yn effeithio arni.
- Mae'n poeni y bydd yn rhaid iddi ddod o hyd i ardal newydd ar gyfer ei theithiau.
- Mae'n drist nad yw'n gallu mynd â'i grŵp i'r goedwig leol gan eu bod nhw'n siŵr o fod yn bryderus iawn nawr.

